



Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) Adroddiad Safle Chwarterol ar gyfer Gorsaf Bŵer Wylfa

Adroddiad ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill i 30 Mehefin 2015

Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad hwn fel rhan o ymrwymiad ONR i sicrhau bod gwybodaeth ynghylch gweithgareddau arolygu a rheoleiddio ynglŷn â'r safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosbarthir adroddiadau'n chwarterol i aelodau ar gyfer Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a hefyd maent ar gael ar y wefan ONR (<http://www.onr.org.uk/lrc/>).

Fel arfer mae arolygwyr o ONR yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a byddant yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw unigolyn sy'n dymuno gwneud ymholiadau ynghylch materion a gwmpasir gan yr adroddiad hwn gysylltu ag ONR.

TABL CYNNWYS

1	AROLYGIADAU.....	3
2	MATERION CYFFREDINOL	3
3	MATERION ANGHYFFREDINOL.....	4
4	GWEITHGARWCH RHEOLEIDDIOL	5
5	NEWYDDION GAN ONR.....	6
6	CYSYLLTIADAU.....	7

1 AROLYGIADAU

1.1 DYDDIADAU AROLYGU

Gwnaeth yr arolygydd safle ONR arolygiadau ar y dyddiadau dilynol yn ystod y chwarter:

7, 8, 9, 10 Ebrill 2015

11, 12, 13, 14, 15 Mai 2015

15, 16, 17, 18, 19 Mehefin 2015

Mynychwyd y Cyfarfod Cyswllt Rheoleiddiol gan yr arolygydd safle ONR ac arolygwyr Arweinyddiaeth a Rheolaeth er Diogelwch ONR ar 16 Ebrill 2015

Mynychodd yr arolygydd safle ONR gyfarfod 1^{af} Pwyllgor Iechyd, Amgylchedd a Diogelwch (SHESAC) Wylfa o 2015/16 ar 20 Mai 2015.

Mynychodd yr arolygydd safle ONR Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa (SSG) ar 21 Mai 2015.

Mynychodd Arolygydd Arbenigol Gwastraff Ymbelydrol y safle ar 20 Mai 2015 er mwyn adolygu cynnydd cyfredol y Prosiect Magnox Cyf ar gyfer adfer gweddillion a achosir gan gyrydiad tanwydd o Gell Storfa Sych 4 (DSC4).

Mynychodd arolygydd arbenigol Rheolaeth ac Offerwaith ONR y safle ar 9 Mehefin 2015 er mwyn ymgymryd ag arolygiad adweithiol o ddiffyg nas datgelwyd ar y thermogyplau Elfen Sengl Blaeniad Llusg (TLSE) ar Adweithydd 1.

2 MATERION CYFFREDINOL

2.1 Arolygiadau

Ymgwymerir ag arolygiadau fel rhan o'r broses ar gyfer monitro cydymffurfiad ag:

- yr amodau a atodir gan ONR i'r drwydded safle niwclear a roddwyd o dan Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i diwygiwyd));
- Deddf Ynni 2013
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSWA74); a
- rheoliadau a wnaed o dan HSWA74, er enghraifft Rheoliadau Ymbelydriadau Ïoneiddio 1999 (IRR99), a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99).

Mae'r arolygiadau'n golygu monitro gweithredoedd y trwyddedai ar y safle mewn cysylltiad â digwyddiadau, gweithrediadau, cynhaliadau, prosiectau, addasiadau, newidiadau i achos diogelwch ac unrhyw faterion eraill a allai effeithio ar ddiogelwch. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai wneud a gweithredu trefniadau digonol o dan yr amodau a atodir i'r drwydded er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r gyfraith. Mae arolygiadau'n ceisio barnu digonolrwydd y trefniadau hyn a'r ffordd y'i gweithredir.

Yn y cyfnod hwn, fe wnaeth arolygiadau o'r (safle/orsaf) gwmpasu'r dilynol:

archwilio, cynnal a chadw, arolygu a phrofi;
rheoli gweithrediadau gan gynnwys rheoli a goruchwyllo;
hyfforddiant, cymwysterau a phrofiad staff;
digwyddiadau ar y safle;
rheoli gwastraff ymbelydrol;
sicrwydd ansawdd a chofnodion.

Yn gyffredinol, roedd ONR o'r farn bod y trefniadau a wnaed ac a weithredwyd gan y safle mewn ymateb i ofynion diogelwch yn ddigonol yn y meysydd a archwiliwyd. Fodd bynnag, ble

ystyriwyd bod angen gwelliannau, gwnaeth y trwyddedai ymrwymiadau boddhaol i drafod y problemau, a bydd yr arolygydd safle'n monitro cynnydd yn ystod ymweliadau'r dyfodol.

Arolygiadau'r System Ddiogelwch

Mae ONR yn cynnwys arolygiadau o'r systemau sy'n cyfrannu i ddiogelwch adweithyddion gweithredol yn ogystal ag arolygiadau cydymffurfiad yn seiliedig ar yr amodau a gysylltir i'r drwydded safle niwclear. Mae'r drwydded safle niwclear yn mynnu bod rhaid i bob safle trwyddedig gael achos diogelwch ynghylch unrhyw weithrediad a allai effeithio ar ddiogelwch. Ar gyfer yr adweithydd Magnox sy'n dal i weithredu yng ngorsaf bŵer Wylfa, nodwyd 30 system i ddarparu'r sylfaen ar gyfer arolygu systemau diogelwch er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu'r galwadau a wneir arnynt gan yr achos diogelwch. Y bwriad yw arolygu fel mater o drefn dros gylch pum mlynedd, yr holl systemau cysylltiedig â diogelwch a nodwyd ar gyfer y safle. Mae ONR yn ystyried y bydd yr ymagwedd hon yn darparu'r lefel o sicrwydd sydd ei hangen y diwallir gofynion yr achos diogelwch a bod y safle'n cael ei weithredu'n ddiogel.

Y systemau diogelwch a arolygwyd yn ystod y chwarter hwn oedd y systemau Cylchredwr Nwy. Ar sail yr arolygiadau, ystyriwyd bod y systemau'n cael eu gweithredu a'u cynnal yn unol â gofynion achos diogelwch yr orsaf. Ble nodwyd meysydd ar gyfer gwella, fe wnaeth yr orsaf ymgymryd i weithredu'n briodol i'w trafod. Bydd ONR yn monitro cynnydd i gwblhau'r gwaith a gytunwyd.

Gellir gweld manylion pellach ynghylch arolygiadau system ONR yng ngorsaf bŵer Wylfa yn: www.hse.gov.uk/nuclear/interventionreports/index.htm

Cyfarfod Cynnydd ar Adfer ILW o Gell Storfa Sych 4 (DSC4)

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn, fel rhan o ymgysylltiad parhaol, er mwyn trafod cynnydd ar y prosiect i adfer ILW o DSC4. Y prif bwnc a ystyriwyd oedd canlyniad asesiad Magnox Cyf o faint y perygl oedd yn aros o fewn y tiwbiau naid a effeithiwyd. Mae'r caniatâd terfynol ar gyfer darparu'r cyllid gofynnol a chychwyn y prosiect yn dal i gael ei ystyried gan gyfarwyddwyr Magnox Cyf. Os yw'n llwyddiannus, bwriedir y bydd y gwaith adfer yn cychwyn o gwmpas diwedd 2016, a dylai gymryd oddeutu 1 flwyddyn i dynnu'r holl 37 tiwb i ffwrdd.

2.2 Gwaith arall

Cynrychiolwyr Diogelwch Safle

Fe wnaeth yr arolygydd safle gynnal cyfarfod cyfnodol gyda chynrychiolwyr diogelwch, er mwyn cefnogi eu swyddogaeth o gynrychioli cyflogaion a derbyn gwybodaeth ar faterion sy'n effeithio ar iechyd, diogelwch a lles yn y gwaith.

Cyfarfod Cyswllt Rheoleiddiol

Fe wnaeth arolygwyr ONR fynychu cyfarfod i ganiatáu i gynrychiolwyr awdurdodau lleol sy'n ymarfer pwerau ar safle Wylfa drafod materion o gyd-ddiddordeb gyda chyfatebwyr o'r orsaf. Mynychwyd y cyfarfod gan gynrychiolwyr o'r orsaf, Magnox Cyfyngedig, Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, arolygwyr diogeledd ONR ac arolygwyr diogelwch ONR. Fe wnaeth y cyfarfod ddarparu cyfle defnyddiol i awdurdodau rheoleiddio gwrdd â chynrychiolwyr y safle a nodi unrhyw feysydd lle gellid gwella rhyngweithio. Bydd ONR yn dal i fonitro perfformiad diogelwch yr orsaf, a chydgyssylltu â chyrrff rheoleiddio eraill fel bo angen.

Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid y Safle (SSG)

Mynychwyd cyfarfod SSG gorsaf bŵer Wylfa yn ystod y cyfnod gan arolygydd diogelwch enwebedig ONR. Fe wnaeth y cyfarfod ddarparu cyfle i randdeiliaid Wylfa gwrdd a thrafod materion yn gysylltiedig â'r orsaf, a gofyn am ymateb gan ONR ar reoleiddio'r safle, fel bo angen.

3 MATERION ANGHYFFREDINOL

Mae'n ofynnol i drwyddedeion gael trefniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau anghyffredinol. Mae arolygwyr ONR yn barnu digonolrwydd ymateb y trwyddedai, gan gynnwys camau gweithredu a gymerir i gyflawni unrhyw welliannau sydd eu hangen.

Materion a digwyddiadau o bwys arbennig yn ystod y cyfnod oedd:

Adweithydd 2 – Gollyngiad Dŵr Atodol yr Adweithydd (RACW)

Yn ystod y trosglwyddiad rhwng y sifftiau noswaith a nos ar 13-4-15 nodwyd defnydd RACW gormodol ar Adweithydd 2 (R2). Mae R2 wedi'i gau i lawr ers oddeutu 3 blynedd ac oherwydd hynny mae dyletswyddau oeri ar yr offer RACW wedi'u cadw at y lleiaf. Archwiliwyd y gollyngiad a chanfuwyd bod falf gollwng ar yr oerydd R2 BCD wedi'i adael ar agor a bod swm a amcangyfrifwyd o 20 m³ o RACW wedi'i drosglwyddo i draen. Yn ystod yr archwiliad llinell gyntaf hwn, darganfuwyd dŵr yn yr ystafelloedd offer islaw, a olrheiniwyd yn ôl i'r dŵr RACW a ddylai wedi mynd i draen. Mae archwiliadau'n awgrymu bod gan y bibell draen fent penagored ar lefel uwch, ac amheuwyd bod y toddiant wedi ôl-lenwi'r bibell draen hyd at lefel lle roedd toddiant yn gollwng o'r fent.

Ar ôl adrodd am y digwyddiad hwn wrth ONR ystyriwyd y dylai ONR ymgymryd ag arolygiad i archwiliad Magnox Cyf a'r ymateb canlynol o bersbectif Ffactorau Dynol. Ar y cyfan, fe wnaeth arolygiad ONR gytuno â'r gweithredoedd a gynigiwyd gan y Trwyddedai i leihau'r risg y byddai hyn yn digwydd eto, fodd bynnag mae angen gwelliant mwy cyffredinol o ran ansawdd ac ymlyniad wrth gyfarwyddiadau er mwyn atal digwyddiadau tebyg mewn mannau eraill ar yr orsaf (canfyddiad o arolwg ONR o'r PSR yn 2014). Mae Magnox Cyf wedi derbyn y cyngor hwn ac mae'n ymgymryd â gweithgareddau pellach mewn ymateb i'r disgwyliad hwn.

Adroddiad Euratom ar Newid Lleches

Yn ystod cynhyrchiant misol ICR Euratom, nodwyd bod gweddill diwedd y mis ar gyfer rhwymedigaeth 'N' Pu ar gyfer diwedd mis Mawrth 2015 yn negyddol, yr hyn na all fod yn gywir. Mae Magnox Cyf wedi cychwyn archwiliad i ffynhonnell y gwall, ond credir ei fod yn wall hanesyddol. Dylid nodi bod gweddillion ar gyfer y 4 rhwymedigaeth arall wedi'u gwirio a'u bod yn gywir. Ymgynghorwyd â'r cwmni arbenigol Euratom er mwyn nodi'r gweithredoedd oedd eu hangen ar gyfer y cofnod Euratom nesaf a ddylai ddod ar 15fed Ebrill.

Fe wnaeth archwiliadau benderfynu'r gweddill N Pu gwirioneddol, ar gyfer y 49 elfen a newidir o ran categori ar hyn o bryd cyn cael eu hanfon. Bydd Wylfa'n cywiro'r gwahaniaeth yn adroddiad mis Mawrth a darparu esboniad yn y llythyr cysylltiedig. Bwriedir rhagor o archwilio, gan Magnox Cyf, er mwyn ceisio nodi ffynhonnell y gwall, fodd bynnag gallai hwn fod yn unrhyw le o fewn ei gofnodion, yn mynd yn ôl i ddechrau'r gweithrediadau a gallai fod yn anodd ei gadarnhau. Mae Magnox Cyf yn credu y dylai hwn fod yn gywiriad un-tro, ac na fydd yn effeithio ar adrodd yn Sellafield. Hysbyswyd uned gyfrifyddiaeth Euratom E5 o'r sefyllfa a'r statws cyfredol.

4 GWEITHGARWCH RHEOLEIDDIOL

Gall ONR gyhoeddi dogfennau ffurfiol er mwyn sicrhau cydymffurfiad â gofynion rheoleiddiol. O dan amodau safle niwclear, mae ONR yn cyhoeddi dogfennau rheoleiddiol, sydd naill ai'n caniatáu gweithgaredd neu'n galw am ryw fath o weithredu; fel arfer gelwir y rhain yn 'Offer Trwydded' (LIs), ond gallant ymddangos ar ffurfiau eraill. Ar ben hynny, gall arolygwyr gyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi er mwyn sicrhau gwelliannau i ddiogelwch.

- Cyhoeddwyd yr LIs a Hysbysiadau Gorfodi dilynol yn ystod y cyfnod:

Tabl 1

Offer Trwydded a Hysbysiadau Gorfodi a gyhoeddwyd gan ONR yn ystod y cyfnod hwn

Dyddiad	Math	Cyfeirnod	Disgrifiad
---------	------	-----------	------------

11/05/2015	Cymeradwyaeth	Offeryn Trwydded 563	Fe wnaeth Magnox Cyfyngedig gynnig diwygio Rheolau Gweithredu'r orsaf ar gyfer y Terfyn Tymheredd T2op. Mae'r cynnig yn anelu at hwyluso gweithredu Adweithydd 1 gorsaf bŵer Wylfa tan ei fod yn cau am y tro olaf ar 31 Rhagfyr 2015 neu pan gyflawnir arbelydru tanwydd o 34.1 GWd/tU – p'un bynnag a ddaw yn gyntaf. Bydd y diwygiadau'n cyflwyno buddion masnachol a diogelwch trwy ganiatáu i Adweithydd 1 Wylfa weithredu o dan y trefniadau dyluniad ar ôl gostyngiadau pŵer sy'n is na 1500 MWth. Mae'r Achos Diogelwch yn cyflwyno dadleuon a thystiolaeth na fydd y diwygiad a geisiwyd yn effeithio ar ddiogelwch cyffredinol yr offer yn ystod gweithredu arferol neu amodau damwain, ac y bydd y risg niwclear a radiolegol ar gyfer gweithwyr y safle a'r cyhoedd yn aros Mor Isel ag y Gellir ei Gyflawni'n Rhesymol.
1/05/2015	Enforcement Letter	WYF71016	Ar 3ydd Mawrth 2015, fe wnaeth arolygwyr ONR ymgymryd ag Arolygiad Seiledig ar System (SBI) o systemau amddiffyn rhag tân Wylfa oedd yn cynnwys y storfa tramwy gwastraff ymbelydrol ar lefel 69' adeilad yr adweithydd. Casglwyd bod addasrwydd yr ardal hon ar gyfer storio deunydd niwclear yn ymddangos yn sylweddol is na'r safon a ddisgwylid i gydymffurfio ag amod trwydded 4(2) y safle. Gofynnwyd i Magnox Cyf ymgymryd ag adolygiad cynhwysfawr o arferion gweithio o fewn storfa tramwy gwastraff ymbelydrol lefel 69' a gweithredu gwelliannau i ddiwallu disgwyliadau rheoleiddiol.

Gellir gweld adroddiadau yn manylu ar y penderfyniadau rheoleiddiol uchod ar y wefan ONR yn <http://www.onr.org.uk/pars/>.

5 NEWYDDION GAN ONR

Cyflwynwyd Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol ONR ar gyfer 2014/15 i'r Senedd ar 29 Mehefin. Mae hyn yn cyflwyno'r datblygiadau allweddol yn ystod blwyddyn gyntaf ONR fel Corfforaeth Gyhoeddus gan gynnwys:

- Cynnydd yn ôl Cynllun Blynyddol ONR;
- Datganiad y Prif Arolygydd Niwclear ar berfformiad diogelwch a diogeledd y diwydiant niwclear;
- Crynodeb o drefniadau llywodraethu ONR; a
- Manylion ynghylch trefniadau rheoli ONR a sut mae adnoddau wedi'u defnyddio.

Gellir gweld cipolwg ar waith ONR fel rheoleiddiwr annibynnol o'r diwydiant niwclear yn Newyddion Chwarterol ONR. Mae'r cyhoeddiad ar-lein (<http://www.onr.org.uk/onr-quarterly-report.htm>) yn adrodd ar y prif themâu a datblygiadau ym mhob un o raglenni rheoleiddiol ONR ac yn darparu diweddariad ar y newidiadau parhaol yn ONR. <http://www.onr.org.uk/index.htm>. I weld y newyddion a diweddariadau diweddaraf gan ONR ewch i'r wefan neu gofrestru i gael ein e-fwletin <http://www.onr.org.uk/ebulletin/index.htm>).

6 CYSYLLTIADAU

Swyddfa dros Reoli Niwclear
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Glannau Mersey
L20 7HS

gwefan: www.onr.org.uk
e-bost: ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR). I gael rhagor o wybodaeth am ONR, neu i adrodd am anghysondebau neu anghywirdebau yn y cyhoeddiad hwn ewch i <http://www.onr.org.uk/feedback.htm>.

© Swyddfa dros Reoli Niwclear, 2015

Os ydych yn dymuno aildefnyddio'r wybodaeth hon ewch i www.onr.org.uk/copyright i weld manylion.
Cyhoeddwyd 01/15

Ar gyfer dogfennau cyhoeddus, y copi electronig ar y wefan ONR yw'r fersiwn mwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae copio neu argraffu'n golygu bod y ddogfen hon heb ei rheoli.